# Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD 02-02 (COFNODION DRAFFT)

Dyddiad: 8fed Mai 2002, am 09.30 am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)
Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Hancock, Islwyn
Gareth Jones, Conwy
Gwenda Thomas, Castell Nedd
Kirsty Williams, Aberhonddu a Sir Faesyfed

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor
Steve George, Dirprwy Glerc y Pwyllgor
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Llywydd

*Eraill*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Gwyther, Lynne Neagle a Karen Sinclair.

3. Yn amodol ar un cywiriad bach, cadarnhaodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac adolygiad o'r pwyntiau gweithredu yn codi o STD 01-02**

Papur STD-02-02(01)

4. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ac eglurodd fod pob un o'r pwyntiau gweithredu a gododd o'r cyfarfod ar 20 Mawrth wedi cael eu gweithredu. Byddai Seiri Rhyddion (Eitem 3) a Braint (Eitem 4) yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

5. Adroddodd Clerc y Pwyllgor fod Swyddfa'r Llywydd bellach wedi prynu'r feddalwedd a allai nodi beth yw nifer yr ymweliadau â thudalennau unigol gwefan y Cynulliad. Ymwelodd 2,500 o bobl â thudalen y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2002.

6. Nododd y Pwyllgor bapur yr Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 4: Seiri Rhyddion**

Papurau STD-02-02(02)

7. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried papur STD-02-02(02) gan yr Ysgrifenyddiaeth.

8. Roedd y papur yn cynnwys adroddiad drafft y Pwyllgor i'r Cyfarfod Llawn, a oedd yn seiliedig ar ystyriaeth flaenorol y Pwyllgor o'r mater ac roedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau ac ychwanegiadau i'r Rheolau Sefydlog. Os oedd y Pwyllgor yn fodlon â'r argymhellion hyn, byddai arweiniad priodol ar weithredu'r Rheolau Sefydlog newydd yn cael ei ychwanegu i'r papur cyn i'r Cyfarfod Llawn eu hystyried.

9. Yn ystod y drafodaeth gwnaed y pwyntiau canlynol:

i. O ran materion yn ymwneud â safonau ymddygiad yr Aelodau, byddai'r gofynion yn y Rheolau Sefydlog arfaethedig newydd y tu allan i gwmpas Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, ni fyddai gwaharddiadau troseddol yn deillio o dorri'r rheolau. Fodd bynnag, byddai gan y Pwyllgor Safonau awdurdodaeth i ddelio ag achosion honedig o dorri'r rheolau.

ii. Rhoddodd y papur yr argraff mai'r unig reswm dros y newid oedd y bygythiad o ddwyn achos cyfreithiol. Fodd bynnag roedd rhai o Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn pryderu bod y ddarpariaeth bresennol yn annheg ac yn anghywir o ran egwyddor.

iii. Crybwyllodd yr adroddiad bryder y cyhoedd ynghylch Seiri Rhyddion. Er na ddylid diystyrru pryderon y cyhoedd, roedd yn bwysig, fel gyda materion eraill, na ddylai penderfyniadau'r Pwyllgor adlewyrchu rhagfarnau. Eglurodd y papur eisoes y byddai gofynion presennol y Cynulliad eu hunain o bosibl yn cyfrannu at ganfyddiadau cyhoeddus annheg o'r Seiri Rhyddion.

iv. Dylai'r papur adlewyrchu'r ffaith mai Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol a ddaeth o hyd i dystiolaeth o bryder ymhlith y cyhoedd yn hytrach na'r Pwyllgor ei hun.

v. Byddai’n well pe na byddai’r Atodiad i’r Rheol Sefydlog arfaethedig newydd yn cynnwys enwau sefydliadau (gan gynnwys y Seiri Rhyddion) fel esiamplau o ddatganiadau o aelodaeth.

10. Dywedodd y Cadeirydd wrth grynhoi fod y Pwyllgor yn ymddangos yn fodlon â’r adroddiad drafft yn amodol ar y pwyntiau canlynol:

i. Dylai adroddiad terfynol y Pwyllgor roi mwy o bwyslais ar yr egwyddorion sydd wrth wraidd y cynigion i newid y gofynion yn ogystal â’r rhesymau cyfreithiol.

ii. Dylid diwygio’r cyfeiriadau at bryderon y cyhoedd ynglŷn â Seiri Rhyddion er mwyn egluro mai darganfyddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ydoedd yn hytrach nag un y Pwyllgor.

iii. Ni ddylai Atodiad arfaethedig gofyniad y Rheol Sefydlog newydd enwi unrhyw sefydliadau fel enghreifftiau.

iv. Dylid ystyried yr adroddiad diwygiedig a’r arweiniad cysylltiedig yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

11. Cymeradwyodd y Pwyllgor grynodeb y Cadeirydd a gofynnwyd i’r Ysgrifenyddiaeth fwrw ati yn unol â hynny.

*Cam gweithredu*: Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud newidiadau i’r adroddiad drafft a chyflwyno’r arweiniad drafft i’r pwyllgor ei ystyried.

**Eitem 4: Braint**

Papurau STD-02-02(03)

12. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y Llywydd wedi gofyn am gyngor ynghylch p’un a oedd Rheolau Sefydlog presennol y Cynulliad a’r arweiniad ar y defnydd o Fraint yn ddigon cryf a ph’un a oedd angen unrhyw newidiadau.

13. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Pwyllgor fod y Rheolau Sefydlog presennol, a’r protocol ar Ymddygiad yn y Siambr, yn darparu digon o gwmpas ar gyfer mynd i’r afael ag unrhyw achosion posibl o gamddefnyddio’r fraint hon. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol atgoffa’r Aelodau o oblygiadau’r fraint a’r darpariaethau ar gyfer mynd i’r afael ag achosion o gamddefnydd. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai o gymorth pe byddai modd atgoffa’r Panel Cadeiryddion o oblygiadau Braint mewn Pwyllgorau.

14. Gofynnwyd i’r Cadeirydd ysgrifennu at y Llywydd gan fynegi casgliadau’r Pwyllgor.

*Cam gweithredu*: Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Llywydd

**Eitem 8: Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

*Dyddiad y Cyfarfod Nesaf*

15. Cytunodd y pwyllgor y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 10 Gorffennaf.

16. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai cyfle i aelodau gyfarfod â’r Athro Diana Woodhouse ddydd Iau 9 Mai er mwyn trafod cynnydd ei hadolygiad.

17. Daeth y cyfarfod i ben am 10:45am.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**